

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 157

Rhif 4

Ionawr 25, 2024

50c.

Penderfyniad Rwanda

Mae Aelodau Seneddol San Steffan wedi pleidleisio o blaid cynllun dadleuol i anfon rhai ceiswyr lloches o Brydain i Rwanda. Pleidleisiodd 320 o Aelodau Seneddol o blaid y cynllun a 276 yn erbyn. Roedd hyn yn rhyddhad mawr i'r prif weinidog Rishi Sunak gan fod nifer o AS Torïaidd wedi bygwth gwrthryfela.



Ym mis Tachwedd 2023 dyfarnodd y Goruchaf Lys fod y cynllun i anfon ceiswyr lloches i Rwanda yn un anghyfreithiol gan ddadlau nad oedd hi'n wlad yn ddiogel. O ganlyniad cyflwynodd llywodraeth y Deyrnas Gyfunol fil newydd a oedd yn datgan yn glir bod Rwanda, ym marn San Steffan, yn wlad cwbl ddiogel. Wrth gwrs, yn ôl pob rheswm, nid yw'r ffaith fod llywodraeth Prydain yn datgan bod rhywbeth yn wir yn golygu ei fod yn wir. Er bod pethau wedi gwella yn aruthrol yn Rwanda ers digwyddiadau erchyll 1994 pryd y lladdwyd 800,00 o bobl mewn 100 niwrnod, y mae pryder am sefydlogrwydd y wlad.

Mae atal ceiswyr lloches, yn enwedig y rhai ddaw i Brydain mewn cychod dros y Môr

Udd, wedi bod ar frig agenda'r llywodraeth Dorïaidd hon ers blynnyddoedd. Daeth 45, 000 i Brydain yn 2022 a 29,000 yn 2023.

Beth yw Cynllun Rwanda?

Y bwriad yw anfon unrhyw geiswyr lloches sydd wedi dod i Brydain yn 'anghyfreithlon' ers Ionawr 2022 i Rwanda, sydd 4,000 o filltiroedd i ffwrdd. Er nad oes unrhyw un wedi eu hanfon yno eto y mae Prydain eisoes wedi rhoi £240 miliwn tuag at y cynllun. Er nad oes gan Rwanda ond lle ar gyfer rhai cannoedd ar hyn o bryd, y bwriad yw y bydd miloedd yn cael eu hanfon yno.

Cyfiawnder

Er bod sefyllfa ceiswyr lloches yn un cymhleth ar hyn o bryd, fe ddylai llywodraeth gwledydd Prydain Fawr osod cyfiawnder i'r bobl hyn fel blaenoriaeth ac nid eu trin fel drwgweithredwyr. Y rheswm gan amlaf pam eu bod yn ffoi i Ewrop a Phrydain yw oherwydd rhyfel, erledigaeth, creulondeb a thlodi dychrynlyd yn eu gwledydd eu hunain. Ni ddylid eu portreadu ar y cyfryngau fel dihirod a gwehilion dynoliaeth. Pobl ydynt sydd wedi eu creu ar lun a delw Duw, yr un mor werthfawr â phawb ohonom ni a chyda'r un hawliau dynol sylfaenol. Gwyddom fod llawer o wleidyddion cydwybodol sy'n ceisio ffordd fwy dyngarol i ddelio â'r ceiswyr lloches ond gwaetha'r modd y mae arweinyddion, sy'n ymddwyn yn annynol ac anghyfiawn tuag at y bobl druan hyn, yn fwy niferus. Cywilydd arnynt, nid yw eu hymddygiad yn ddigon da fel gwladweinwyr ac mae angen arweinyddion o naws gwahanol sydd gyda doethineb yn eu meddyliau a chyfiawnder yn eu calonau. Golchi dwylo o gyfrifoldeb gwleidyddol yw hyn.

Caersalem Pontyberem

Cafwyd noson eithriadol o ddifyr ar nos Lun 8 Ionawr 2024. Daeth teulu Fferm Dyfed Shire Horses Eglwyswrw, Sir Benfro atom i annerch Cymdeithas Criw Caersalem. Mae'r teulu wedi bod yn ffermio yn Carnhuan ers 1849 ac yn arbenigo erbyn hyn ar fagu ceffylau gwedd. Yn ystod y cyfarfod cafwyd hanes y teulu a'r modd mae magu ceffylau gwedd yn rhan annatod o'u bywyd

Yna ar brynhawn Sul 14 Ionawr fe gynhaliwyd yr oedfa gymunedol flynyddol. Trefnir yr oedfa hon gan Gyngor Cymuned Pontyberem. Cyflwynwyd y neges bwrpasol gan y Parchg Emlyn Dole a gwnaed cyflwyniadau amrywiol gan eglwysi'r plwyf.



Linguae Christi

Mudiad cenhadol diddorol i
ni fel Cristnogion
Cymraeg ein hiaith
yw Linguae
Christi (Ieithoedd
Crist).

Gweledigaeth y
mudiad hwn yw
cyhoeddi'r
newyddion da

Cristnogol yn Ewrop a
hynny'n arbennig ymhlith pobl sy'n siarad
ieithoedd brodorol lleiafrifol gyda'r
bwriad o sefydlu eglwysi. Mae'r grwpiau
ieithyddol hyn yn cynnwys 165 o
ieithoedd gyda chyfanswm o 100 miliwn o
siaradwyr, o Bortiwgal yn y gorllewin, i
Siberia yn y dwyrain.

Wrth ddisgrifio eu gweledigaeth nodant
3 pheth sef:

1. Bod pob grŵp ieithyddol yn bwysig i
Grist
2. Mae'r Iesu yn siarad yn fwyaf effeithiol
gyda phobl yn eu mamiaith.
3. O ganlyniad, credwn fod gan bawb yr
hawl a'r angen i glywed yr Efengyl yn
eu hiaith eu hunain

Maent yn awyddus i weithio ymhlith 12
dosbarth ieithyddol. Er mwyn cael syniad
o'r hyn a olygir cyfeiriwn yma at ddau o'r
dosbarthiadau hyn.



1. Ieithoedd Tiwtonaidd

Ieithoedd o fewn y dosbarth hwn:

- Norddig: Jamtlandeg, Scaniaeg,
Jutlandeg (Jutish), Faroese, Iaith yr
Ynys Las
- Is-Almaeneg: Frisieg, Flemeg,
Zeeuweg, Achterhoekeg, Drenteg,
Groningeg, Sallandeg, Is Sacsoneg,
Stellingwerfeg, Twenteg, Veluweg,
Westphalieneg, Scoteg
- Uwch-Almaeneg: Limbugeg,
Lwcsembourgeg, Pfaelzisch,
Mainfränkisch, Kölsch, Bafareg,
Cimbrieg, Mócheno, Walser,
Schwabeg, Allemanneg, Alsatieg,
Almaeneg y Swistir

Siaredir yr ieithoedd hyn yn:

- Gwlad Belg, Denmarc, Ffrainc,
Almaen, Iseldiroedd, Lwcsembwrg,
Sweden, Y Deyrnas Unedig.

2. Ieithoedd Balto-Slafeg

Ieithoedd yn y dosbarth hwn:

- Sorbieg (Uwch ac is.), Cashubieg,
Silesieg, Rusyn, Belaruseg, and
Latgalieg

Siaredir yr ieithoedd hyn yn:

- Belarws, Croatia, Gweriniaeth Siec,
Almaen, Hwngari, Latfia, Lithuania,
Gwlad Pwyl, Rwsia, Serbia,
Slofacia, Wcráin.

I gael rhagor o wybodaeth am y mudiad
hwn ewch i'w gwefan
<https://linguaechristi.org/about/>

DIM MWY

Yn Valladolid Sbaen saif cofeb i'r
fforiwr ar anturiaethwr Christopher
Columbus. Un o'r nodweddion
diddorol ar y cerflun yn llew yn
dinistrio un o dri gair Lladin – tri gair
fu'n rhan o arwyddair Sbaen ers
canrifoedd.

Ar ei fordaith gyntaf teithiodd
Christopher Columbus trwy ddyfroedd
dieithr ac i diroedd newydd. Cyn y
fordaith honno gosodid tri gair ar faneri
Sbaen. Roedd yr un tri gair i'w gweld
ar ymyl chwith mapiau'r cyfnod.
Roedd y tri gair hyd yn oed wedi eu
cerfio mewn carreg ar yr arfordir wrth
ymyl Gibraltar. Beth oedd y geiriau?

NE PLUS ULTRA

sydd o'u cyfieithu yn golygu 'dim mwy
y tu hwnt'.

Roedd y byd Ewropeaidd yn
argyhoeddedig nad oedd unrhyw beth y
tu hwnt i Gibraltar. Nid felly
Columbus. Mentrodd ef i'r anwybod
gan ddod ar draws diroedd a chyfoeth
enfawr. A chyda hynny cychwynnodd
cyfnod newydd yn hanes dynoliaeth.

O ganlyniad, newidiodd brenin
Sbaen ei arwyddair. Dyma pam ar y
cerflun y gwelir llew yn rhwygo'r gair
NE gan adael dim ond dau air sef
PLUS ULTRA sef 'mwy y tu hwnt'.

Trwy ddod ar draws cyfandir
newydd y tu hwnt i'r gorwel disodlwyd
y ddealltwriaeth nad oedd mwy yno
gan hyder newydd fod yna yn wir ragor
i'w weld a'i brofi.

Gadewch i Dduw ehangu eich
gorwelion i sylweddoli fod ganddo fwy
nac y gallwn ei ddychmygu ar ein cyfer
yn yr Iesu:

PLUS ULTRA.



✦ Cyfres Newydd ✦ Cyfle Newydd ✦ Ffurf Newydd ✦

Cyfle gwyh i ymuno mewn cyfres o chwe sesiwn fydd yn
archwilio gwahanol agweddau o fywyd eglwysig.

✦ Gweddïo ✦ Arwain Addoliad ✦ Pregethu ✦ Beth yw Eglwys ✦ ✦ Gwaith Plant ac Ieuenctid ✦ Gwedd Ddigidol Eglwys ✦

Dyddiadau:

08/01 22/01 05/02 19/02 04/03 18/03

Amser:

7:00 - 9:00 o'r gloch yr hwyr.

Lleoliad:

Bydd modd ymuno yn y sesiynau hyn drwy fynychu eich
Hwb Hyfforddi Lleol. Manylion llawn pob lleoliad ar y
daflen wybodaeth.



Awydd ymuno? Croeso cynnes i bawb!

Trefnir y sesiynau hyn fel rhan o gynllun Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg | Gwybodaeth pellach: carwyn@annibynwyr.cymru

Dyddiad	Testun	Arweinydd
Chwefror 5	Pregethu	Parchedig Robin Samuel
Chwefror 19	Beth yw Eglwys	Parchedig Carwyn Siddall
Mawrth 4	Gwaith Plant ac Ieuenctid	Parchedig Owain Davies
Mawrth 18	Gwedd Ddigidol Eglwys	Rhodri Darcy

Cynhelir pob sesiwn rhwng 7.00 a 9.00 o'r gloch yr hwyr

Yr Adran Gydenwadol

Byddardod Byd

Mae'n siŵr bod sawl enghraifft o wraig yn dweud am ddiffyg clyw ei phriod 'ei fod yn clywed popeth mae ef am ei glywed', a hynny mewn ffordd ysgafn gan amlaf. Peth annifyr yw bod mewn cwmni a cholli rhediad y drafodaeth am fod y clyw yn methu. Peth gwaeth o lawer yw bod y byd yn dewis peidio clywed gwirioneddau hygryw a sylfaenol.

Ddechrau'r flwyddyn newydd hon, gwelwyd pedair pennod o ddrama ar y teledu yn dwyn y teitl *Mr Bates vs The Post Office*. Llusgodd chwarter canrif heibio ers i Mr Alan Bates, Llandudno, a Mr Noel Thomas o Ynys Môn a'u cydbostfeistri wynebu hunllef o brofiad drwy gael eu herlyn a'u cosbi'n drwm, ac yn achos Noel Thomas ei garcharu ar gam. Cafodd y dramâu teledu hyn effaith sydyn a syfrdanol fel bod Mr Rishi Sunak, y Prif Weinidog, a'i gabinet wedi cynllunio deddfwriaeth briodol er mwyn dileu'r gosb a threfnu iawndal briodol. Derbyniodd sawl cymuned fod yr isbostfeistri lleol yn euog o ladrata, a throi eu cefn ar bobl a fu gynt yn weithwyr uchel eu parch yn eu cymunedau. Nid yw'r ddeddfwriaeth hon wedi ei derbyn eto, a bu llawer o anghydweld ai dyma'r llwybr gorau i wneud iawn am y cam. Mae pawb yn unfrydol fod cam wedi digwydd, a gelwir yn unfrydol am gamau i wneud yn iawn am hynny. Bu sawl erthygl mewn papurau dyddiol a sawl rhaglen deledu yn trafod y camwri, ond gwadu'r cam wnaeth y Swyddfa Bost Brydeinig, a thawedog fu llais y llywodraeth hyd yn awr. Fe wnaeth gormod o bobl ddewis peidio â chlywed, heb sôn am wrando a gweithredu cyfiawnder.

Bu'r teledu hefyd yn fodd i ni glywed mwy am y Parch T. B. Joshua. Gelwir y gynulleidfa a sefydlwyd ganddo yn The Synagogue Church of All Nations ac roedd miloedd o bobl yn tyrru yno am ymuno yn ei rhengoedd. Roedd yr eglwys hon yn sefydliad cyfoethog yn Lagos, Nigeria, ac yn denu pobl o bob oed a chefnidir. Bu farw T. B. Joshua yn 2021, ond roedd ei greulondeb treisgar yn cam-drin merched



Llun: ITV

am dros ugain mlynedd yn hysbys ers amser maith; byddai'n gorfodi'r merched yr oedd wedi bod yn gyfrifol am eu beichiogi i erthylu eu plant.

Bu'r BBC yn ymchwilio am ddwy flynedd, yn ôl yr hanes, ac mae'r adroddiadau hyn yn gywilyddus. Er i nifer rannu eu pryderon am weithgarwch amheus T. B. Joshua, cafodd y cyfan ei anwybyddu gan yr awdurdodau. Yn y pen draw dewrder ei ferch, sef Ajoka, a ddaeth â'r erchyllterau i sylw'r byd, pan gytnodd hithau i gael ei chyf-weld gan y BBC yn ddiweddar. Bu iddi hithau brofi blynyddoedd o gamdriniaeth a thrais drwy law ei thad, tan iddi rannu'r stori mewn cyfweiliad ar gyfer rhaglen y BBC ar hanes erchyll ymddygiad ei thad. Tystiodd cyn-aelodau o'r eglwys hon am y gamdriniaeth, ond prin fod unrhyw gorff crefyddol na seciwlar wedi cymryd sylw o hyn. Mae arweinwyr cyfredol yr eglwys yn gwrthod ymateb i'r cyhuddiadau diweddaraf, gan ddweud nad oes tystiolaeth ohonynt. Mae'n siŵr fod gan T. B. Joshua ddoniau cyfathrebu sylweddol a'i fod yn bersonoliaeth garismataidd eithriadol, ond nid yw camdriniaeth rywiol i'w chyfiawnhau ar unrhyw gyfrif. Tebyg fod ganddo staff technegol i'w gefnogi, a hwythau'n feistri ar y dechnoleg fwyaf soffistigedig. Ond heb gariad Crist yn llywio'r cyfan, nid yw'n ddim ond cam-drin y gwan a'r bregus yn y byd. Nid diffyg tystiolaeth oedd y broblem, ond amharodrwydd y

byw i wrando. Dyma enghraifft arall o fyddardod llwyr.

Yn ystod pythefnos cyntaf Ionawr daeth stori o Rochdale, yn adrodd bod heddlu ardal Manceinion (GMP) wedi methu gyda'u hymchwiliadau i gangiau o ddynion a fu'n cynllunio i ddal merched ifanc lleol mewn modd ysglyfaethus, a'u defnyddio fel puteiniaid. Mae'r adroddiad a ddaeth i law yn ddiweddar yn sôn am y cyfnod rhwng 2004 a 2013. Dywedir bod yr Awdurdod Lleol yn ymwybodol o'r adroddiad, ac iddynt hwythau hefyd fethu ymateb yn briodol gan adael y merched hyn, fel yr heddlu, ar 'drugaredd' y gangiau llygredig hyn. Yn ôl yr adroddiad diweddaraf, bu sawl ymchwiliad blaenorol ond neb yn gwrando'n ddigon astud, gan adael merched yn eu harddegau yn marw oherwydd iddynt gael eu chwistrellu â heroin.

Dyma ein byd, yn ei fudreddu a'i anfoesoldeb. Prin fod angen i erthygl fer fel hon gyfeirio at bob enghraifft gyfoes o wamalrwydd byddar ein byd. Ond os nad ydym yn gwrando ac yn gweddio, yn codi llais ac yn hawlio cyfiawnder, rydym yn euog o ddihidrwydd, a bydd ein tawedogrwydd yn hawlio beirniadaeth bro a byd. Canwn eto eiriau godidog Siôn Aled (*Caneuon Ffydd*, 828) ac yn benodol:

lle bo loes, boed i'n hoes,
adlewyrchu golau'r groes.

Denzil John

LLEUWEN

EMYNAU COLL Y WERIN / LOST WELSH FOLK HYMNS

CHWEFROR / FEBRUARY 2024

- 13 - Capel Cendy ABERNANT SAD 4RW, 7:30pm
- 14 - Capel y Morfa ABERYSTWYTH, 7:30pm
- 15 - Capel Bethel LLANFFESTINIOG LL41 4NF, 7pm
- 16 - Capel Smyrna LLANGIAN LL57 7LN, 7pm
- 17 - Capel Salem PENMACHNO, 7:30pm
- 18 - Capel Peniel DEGANWY, 10am
Capel Bethesda YR WYDDGRUG, 6pm
- 19 - Capel PENCAENEWYDD LL53 6RB, 7:30pm
- 22 - Mission Gallery ABERTAWE SA1 1TY, 7:30pm
- 23 - Capel Mynydd Seion CASNEWYDD NP20 1LZ, 7:30pm
- 24 - Capel Salem CAERDYDD CF5 1QF, 7:30pm
- 25 - Capel Tabernacl EFAIL ISAF, 11am

EBRILL / APRIL 2024

- 20 - Capel GLYNARTHEN SA44 6NX, 2pm
- 21 - Capel Hermon CYNWYL ELFED SA33 6SR, 2pm
Capel NANTERNIS, 7pm
- 22 - Capel y Priorddy, CAERFYRDDIN, 7pm
- 23 - Capel Ebeneser LLANDEILO, 7pm
- 24 - Capel Elim LLANDDEINIOL SY23 5AN, 7pm
- 25 - Capel Goffa Ann Griffiths DOLGANOG SY21 0LQ, 7pm
- 26 - Capel Nant y Benglog CAPEL CURIG, 7pm
- 27 - Capel Shiloh TREGARTH, 7:30pm
- 28 - Capel Cwmtirmynach LLANDDERFEL Bala LL23 7EB, 6pm
- 29 - Capel Rhos-y-Gad LLANFAIRPWLL 7:30pm
- 30 - Capel y Waen, LLANELWY LL17 0DY, 1pm
Capel Mawr DINBYCH LL16 3SW, 7pm

MAI / MAY 2024

- 1 - Capel TUDWEILILOG LL53 8NE, 7pm
- 2 - Capel Bethesda LLANGENNECH, 7pm
- 3 - Capel Bethania Y TYMBL, 7pm


Foto: MCPPhotographie29

Gair Duw ar Waith

gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrnodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 18
Anghenion Govan yn Glasgow
Sul, 28 Ionawr



Gweddi
Dduw pob daioni, gofynnwn am dy gymorth i werthfawrogi pwysigrwydd cydweithio fel eglwysi er budd cymdogaeth eang, ac y byddwn yn myfyrïo ar dy bwrpas di ar ein cyfer o fewn cynllun dy weinidogaeth. Amen.

Darlleniad: 1 Timotheus 5: 1–16
‘Dyletswyddau tuag at eraill’

Cyflwyniad
Yn yr uned ddiwethaf, boom yn effro i rym gweddi yn lleol yn hanes Dorcas, ac i weledigaeth fyd-eang yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol. Yn y myfyrnod hwn awn i'r Alban ac aros am ennyn yn Govan, ardal sydd tua dwy filltir a hanner o ganol Glasgow, ar lan afon Clyde, ac yn enwog am adeiladu llongau. Bydd llawer yn meddwl am yr ardal fel un dlawd a difreintiedig. Glasgow yw pedwaredd dinas fwyaf Prydain gyda phoblogaeth o 1,100,000, tra mae Caerdydd yn ddeuddegfed ar y rhestr, gyda 488,000 o boblogaeth. Rhan o bwyslais cadarnhaol y fro yw'r ffaith fod yr eglwysi'n perthyn i'r [Glasgow City Mission](#) sy'n cyflogi nifer o bobl. Mae gan y grŵp yma statws elusennol gyda Bwrdd o Gyfarwyddwr i fugeilio'r gwaith. Mae gan y Bwrdd ystod eang o gynlluniau ac maent yn llwyddo i gydlynu llawer o wasanaethau dros yr henoed, y di-waith, y digartref a'r ifanc.

Mae'r GCM yn bodoli ers 1826 ac mae ganddo draddodiad o wasanaeth clodwiw, fel y London City Mission, sef corff cyfatebol yn Llundain. Ni allwn ond gofyn pa fodd y gallai corff tebyg ddigwydd yng Nghaerdydd, Abertawe, Wrecsam a Chasnewydd. Bu un o

ganhennau'r GCM yn canolbwyntio er 1986 ar waith plant meithrin ac mae 40 o blant bach yno ac adran hŷn yn gweithio gydag adran feithrin. Bydd y sefyllfa Gymreig yn awyddus i sŏn am eglwysi yn pontio gyda'r Mudiad Ysgolion Meithrin, ac mae digon o enghreifftiau o hynny ledled y wlad. Byddant yn cynnig pwyslais ar feithrin gwerthoedd teuluol ac yn hyrwyddo sgiliau i fod yn rhieni da.

Rhan arall o'r gwasanaeth yw dangos gofal dros yr henoed a'r di-waith, a hynny mewn canolfannau 'galw heibio' – y 'drop-in centres'. Bydd 130 o bobl yn cael eu bwydo'n ddyddiol yno ac mae'r ganolfan wedi ei hadeiladu yn unswydd at y diben hwn. Mae ar agor rhwng 10 o'r gloch y bore a 10 o'r gloch yr hwyr o ddydd Llun i ddydd Gwener, a hefyd ar agor ar brynhawniau Sadwrn.

Bydd rhannau o'r darlleniad yn anodd i ni eu hamgyffred, ond gwelwn Timotheus yn brwydro i roi trefn ar ei feddwl ac ar ei argymhelliad i'r wedd o ofalu dros eraill. Ceir pwyslais canolog o ofalu dros eraill, a hynny yng nghyd-destun bod yn ddilynwyr i Iesu.

Myfyrnod
Pan fyddwn yn ystyried cyfanswm gwasanaeth yr eglwysi ar draws y flwyddyn, boed fel eglwysi unigol neu fel grwpiau o eglwysi mewn ardal neu ddinas, mae'n anhygoel bod cymaint yn digwydd. Yn ystod y gyfres hon o fyfyrnodau mae gennym destun diolch ac achos i lawenhau. Eto, cymaint mwy y gallai'r eglwysi ei gyflawni pe bai mwy o gydweithio a llai o bwyslais ar gynnal adeiladau a etifeddiwyd gan saint ddoe.

Oni ddylem ganolbwyntio ar beth y gellir ei wneud gyda phobl heddiw a sut i gynnig arweiniad ar gyfer y dyfodol? Aeth cymaint o'n hadeiladau yn symbol o'n crefydd, heb gofio mai cyfrwng yw'r canolfannau hyn i'r eglwys wneud ei gwaith, boed yn addoliad, boed yn wasanaeth i'r gymdeithas.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu'r eglwysi yn y Cymoedd yn wirioneddol wych yn darparu bwyd i'r anghenus, ac yn yr un modd pan oedd y glowyr ar streic yn y ganrif ddiwethaf bu'r eglwysi yn lloches ac yn gynhaliaeth i gymdogaethau eang. Mae trigolion Aberfan yn dal i gofio'r modd y bu'r eglwysi yn gwasanaethu yn awr eu hangen, a da hynny. Wrth i'n hadeiladau ddirywio nes eu bod yn fwy o feichiau ar sawl cynulleidfa, gofynnwn a oes gan yr eglwysi yng Nghaerdydd ac yng Nghymru weledigaeth ehangach, fel a ddangoswyd yn Glasgow a Llundain, a nodi dim ond dwy enghraifft eithriadol? Yn anffodus, byddwn yn tybied bod yr adeiladau gennym am byth ac mai ein braint yw eu gwarchod, heb feddwl beth yw ein gwir etifeddiaeth a gwir her yr eglwysi i fyw'r Efengyl.

Gweddi
Nefol Dad, agor ein llygaid i weld y posibiladau sydd o'n blaen a pha fodd y gallwn ymyrddhau o hualau ddoe a meddwl o ddifrif am garu cymydog, pw y bynnag y bo. Amen.

- Cwestiynau i'w hystyried**
- 1 Roedd cyd-destun geiriau Timotheus mor wahanol i Gymru heddiw, ond a yw hi'n bosibl i ni amgyffred amgylchiadau ei gyfnod ef yn ein dyddiau ni?
 - 2 Beth yw'r cysylltiad rhwng y graslonrwydd Cristnogol i drugarhau a'r dyhead dynol i helpu rhywun arall?
 - 3 Pa fath o weithgareddau fel rhai Govan y carech eu gweld yn digwydd yn eich ardaloedd chi?
 - 4 A fyddwch yn gweld llaw Duw yn llywio agweddau dyngarol eglwysi lleol, yn ogystal â mudiadau byd-eang fel Cymorth Cristnogol?
 - 5 Sut mae gwahaniaethu rhwng 'dyletswydd' a 'braint'?

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 28 Ionawr am 7.30yb
Chwaraeon a ffydd
Ar drothwy pencampwriaeth y Chwe Gwlad, mae Lowri Morgan yn dathlu gwersi ysbrydoledig byd y campau ac emynau dyrchafol y maes rygbi. A chawn berfformiad gan Gôr Meibion Pendyrus.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 28 Ionawr, am 7:30yb a 16:30yb
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Gwir Barchedig Dorrien Davies, esgob Tyddewi
Oedfa Radio Cymru
Sul, 28 Ionawr, am 12yb
Oedfa dan ofal Prydwen Elfed-Owens, Trefnant

Gair gan Aled



Mae 'na gân hudolus gan Coldplay efo'r teitl 'Fix you'. Dw i'n berson anymarferol iawn os oes rhywbeth yn mynd o'i le yn y tŷ, neu efo'r car. Meddyliwch felly pa mor wych oedd clywed am y *Repair Cafe* – Caffi'r Adnewyddu – mewn sawl ardal erbyn hyn. Caffi ble mae modd mynd â hen beiriannau a theclynnau er mwyn i bobl yno eu trwsio. Mae 'na lawer o bethau angen eu trwsio yn ein byd. Mis Ionawr yw'r mis du meddan nhw – yr adeg pan mae llawer ohonom yn teimlo hyn i'r byw, ac yn fregus. Mis lle mae angen trwsio arnom ni fel pobl hefyd. Ond mis fel bob adeg arall pan mae gwahoddiad cynnes hefyd, i ddod o dan adain cariad Duw.

Yn Eglwys y Groes ynghanol siopau dinas Caer, ddwywaith y mis cynhelir Eglwys y Nos – ar yr ail a'r bedwaredd nos Sadwrn o 9.30 y nos hyd ddau o'r gloch y bore. Trawsnewidir awyrgylch hamddenol eu heglwys a'u caffi gyda goleuo pwrpasol, a cherddorion yn rhannu eu doniau, i gynnig cysur ac awyrgylch ymlaciol i rai a ddaw i mewn. Gwêl y tîm gwirfoddol o bump ar hugain i gyd (o sawl eglwys), eu bod yn cynnig gofod cysegredig i ddelio efo problemau heddiw yng nghyfnodau tywyll Ionawr a Chwefror, yn ogystal ag ar strydoedd balmaidd a thwristaidd yr haf ynghanol Caer. Dydy'r mwyafrif o'r ddwy fil a hanner o bobl a ddaw mewn blwyddyn, ddim â chysylltiad efo eglwys neu gapel arferol. Does dim agenda haearnidd – a dywedir fod y mwyafrif a ddaw yn dod eu hunain, rhannu paned a sgwrs, yn bwrw eu bol, a'u bod yn hapus i ymuno mewn gair o weddi ar y diwedd.

Mae'r tîm yn y safle canolog hwn gerllaw Croes y ddinas, yn gweld eu hunain fel heuwyr hadau – anaml maen nhw'n gweld ffrwyth eu llafur. Ond mae ganddynt ymddiriedaeth y bydd Duw yn darparu'r cam nesaf. Diolch eu bod yno, fel cân Coldplay 'to fix you'. Blwyddyn newydd dda i bob un ohonoch.

Be gythgam?

Rŵan, dwi'n gwneud yma yr union beth mae'r cwmni am i mi ei wneud sef cael myll am eu cynnyrch. Nid oes dim gwell gan rai na gwrthwynebiad i'r hyn y maent yn ei wneud. Mae'n tynnu sylw at eu cynnyrch ac efallai yn codi eu gwerthiant. Ond go brin y bydd pwt ar Sabothal yn gwneud y naill beth na'r llall, ond ta waeth am hynny! Dwi wedi cyrraedd yr oed hwnnw bellach lle mae'n anodd iawn codi cywilydd arnaf.

Yr wythnos hon fe es i i mewn i siop nid anenwog ar y stryd fawr i weld os gallwn gael ysbrydoliaeth ar gyfer anrhegion Nadolig. Cwmni yw hwn sydd wedi ei ail lansio gan fod yr hwch wedi mynd trwy'r siop ychydig yn ôl. Roeddwn yn awyddus felly i weld beth oeddent yn ei werthu wrth atgyfodi. Edrychais ar gemau cyfrifiadurol, calendrau a rhai CDau cerddorol. Yna cerddais heibio i adran arall oedd yn gwerthu dillad. Roedd yn amlwg nad oeddent ar gyfer pobl fel fi oherwydd nad oedd maint 3XL ar gael. Ond cefais fy nghythrudo gan yr hyn oedd ar rai o'r crysau-T.

Credaf mai'r enw ar y dilladach yw The Zombie Makeout Club. Fel y gwelwch yn y lluniau mae'r negeseuon ar y crysau yn dywyll. Arnynt dywedir pethau fel: *Team Witch – Spell Book*; *Heartless from the Cradle to the Grave*; *I Hate Everything*; *Devil's Music Sing Along*, (gyda llun o blant bach, beth ddawl ydy ystyr hynny, ni wn), ac un gyda llun o ferch ifanc yn dal gwn (dryll) wrth ei phen fel pe bai am wneud amdani ei hun (*suicide*). Lol ddiniwed? Na, rhywbeth cwbl annerbyniol. Ai copa mynydd iâ yw hyn sy'n adlewyrchu'r tywyllwch sydd o fewn i enaid cymdeithas? Ai dyma sut yr ydym am annog ein pobl ifanc i fod yn ddinasyddion gwerthfawr? Os yw'r rhain

ar silffoedd siopau'r stryd fawr, pa bethau dieflig sydd ynghyd yng nghilfachau'r we? O ddifrif, onid llawer mwy buddiol fyddai cael crysau-T gyda negeseuon fel, 'câr dy gymydog' neu 'Duw cariad yw'?

Mae'n amlwg bod y cwmni'n meddwl y gallant wneud tipyn o arian wrth werthu'r rhain ac y bydd gwerthiant da. Tybiaf fod arbenigwyr ffasiwn wedi bod wrthi'n trafod a chynllunio. Ond a yw hyn yn dderbyniol fel negeseuon ar ddillad pobl ifanc? Pa fath o gwmni sy'n credu ei bod yn dderbyniol cynhyrchu'r fath rwtsh pan fo cymaint o'n hieuenctid yn dioddef o gyflyrau iechyd meddwl, iselder ac yn cyflawni hunanladdiad? Dwi'n gwybod mai tuedd rhai pobl ifanc yw cicio yn erbyn y tresi gan wrthod confensiynau a safonau sy'n dderbyniol gan y 'sefydliad'. Ond twyll yw'r math yma o beth lle mae cwmni cyfalafol yn cynnig anarchiaeth ffug i ieuencid er mwyn manteisio arnynt a gwneud elw. Ac yn ein cyfnod ni mae lluo o bobl yn cael eu twyllo gan hyn. Credant eu bod yn rebeliaid ac yn llanciau oherwydd eu bod yn prynu nwyddau gan gwmni arbennig. Ond yr eironi yw mai'r cwmnïau pwerus sy'n rheoli eu hymddygiad, eu meddyliau a'u blaenoriaethau. Credant eu bod yn rhydd ac annibynnol ond caeth ydynt i brynwriaeth (*consumerism*) gormesol. Nid rebeliaid ydynt ond pypedau yn y system gyfalafol faterol a'r llinynnau'n cael eu tynnu gan elw digydwyllo. Ac o safbwynt Cristnogol maent yn cael eu twyllo i addoli eilunod disylwedd, twyllodrus ac nid Duw trwy'r Arglwydd Iesu.

Y gwir yw, erbyn hyn y gwrthryfelwyr yng Nghymru yw'r ychydig ffyddlon sy'n dilyn Iesu Grist. Mae'r rhain yn sefyll yn erbyn y tywyllwch a materoliaeth ac yn gwrando ar *lais meist*r.

A dyna ddiwedd y myll.

(allan o flog Alun Tudur, sabothal.blog, 8 Rhagfyr 2023)



Barn Annibynnol

Diwrnod Cofio'r Holocaust 2024

Ers 7 Hydref 2023, mae sylw'r byd gorllewinol wedi symud o'r rhyfel rhwng Rwsia ac Wcráin i'r trafferthion yn y Dwyrain Canol. Cyfeirio ydw i at y gwrthdaro a gychwynnodd rhwng Hamas a'r Israeliaid. Wrth i mi baratoi'r erthygl yma, mae Byddin Amddiffyn Israel wedi lladd dros 22,000 o drigolion Gaza yn y tri mis diwethaf, a nifer fawr iawn o'r rheini'n blant; plant diniwed oedd heb ddechrau byw.

Yn y mis diwethaf bu i Lywodraeth De Affrica weithredu'n ddewr iawn drwy godi achos o 'hil-laddiad (*genocide*) yn erbyn Llywodraeth Israel, a hynny yn y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol yn yr Hague, tra bod ambell i lywodraeth arall – gan gynnwys y DU – wedi ochri gyda llywodraeth Israel. A hithau'n Ddiwrnod Cofio'r Holocaust ar 27 Ionawr, priodol ydi cofio dioddefaint miloedd o Iddewon adeg yr Ail Ryfel Byd, yn ddynion, gwagedd a phlant. Unigolion diniwed a brofodd bolisi hil-laddiad y Natsiaid.

Hunllef yr Holocaust

Yn ystod yr Holocaust yn unig, lladdwyd dros chwe miliwn o Iddewon - sef ffigwr tebyg i ddwywaith maint poblogaeth Cymru heddiw - yn fenywod, dynion, plant a babanod. Anodd dychmygu'r lladd diddiwedd yna a ddigwyddodd yn y caeau, gwersylloedd garchardai a gwersylloedd marwolaeth fel Auschwitz. Y gwir yw bod Hitler yn ystyried 'dychryn di-gyfraith' (*lawless terror*) yn weithred dderbyniol a thu hwnt i ddeddfwriaeth unrhyw lys barn!

Ystyrier, rhwng 1933 a 1945 yr anfonwyd 2.3 miliwn o ddynion, gwagedd a phlant i wersylloedd-carchar ac at eu marwolaeth. Ymysg y dosbarthiadau a garcharwyd gan y

Natsiaid oedd troseddwy'r gyfraith, Tystion Jehofa, carcharorion milwrol Sofietaidd, sipsiwn, pobl hoyw ynghyd ag Iddewon. Rhwng Ionawr a Mai 1945 amcangyfrifir i dros 300,000 mil o garcharorion oedd yng ngofal y Natsiaid farw o newyn, afiechydon, neu drwy gael eu lladd yn fwriadol yn y gwersylloedd uffernol yna, ac yn ystod ymdeithiau marwol.

Hil-laddiad

Dengys hanes bod cenhedloedd a llwythau eraill heblaw Iddewon wedi dioddef o ganlyniad i'r meddylfryd dieflig hwn o hil-laddiad. Cofiwn am y filiwn o bobol o lwyth y Tutsi a laddwyd mewn can-niwrnod yn Rwanda a Bwrwudi ym 1994. Yr hil-laddiad yng Nghambodia, Darfur, yng Ngorllewin Swdan, lle mae pobol gyffredin, ddiniwed yn dioddef hyd heddi! Ydych chi'n cofio'r hil-laddiad yn Bosnia ac Herzegovina gan y Serbiaid yn erbyn y Mwslemiaid? Cofio neu beidio, heb os, hil-laddiad yw'r enghraifft eithaf a gwaethaf o drais sy'n atal hawl unrhyw unigolion i fyw.

Gasa

A dod i'r presennol, rhaid cyfaddef fy 'mod i wedi ei chael hi'n anodd iawn i ddeall meddwl trigolion Israel yn eu perthynas â'u cymdodogion yn Gaza a'r West Bank. O feddwl am y plant diniwed a laddwyd yn Gaza dros y pedwar mis diwethaf o ganlyniad i ymosodiadau milwrol hollol afreolus ac anwar Byddin Amddiffyn Israel beth, yn enw Duw, a ddywedwn ni wrth y naill ochr a'r llall? O gofio'r trais a gyflawnwyd gan Hamas yn erbyn Israel ar 7 Hydref 2024, dydi hi ddim yn safiad poblogaidd heddi i ochri gyda thrigolion Gaza a'r Llain Orllewinol. Ond eto, sut yn enw'r ddynoliaeth y medrai unrhyw lywodraeth gyfiawnhau moeseg ryfelgar yn seiliedig ar 'lygad am lygad, a dant am ddant', fel y gweithredir gan Israel ar hyn o bryd? Sut mae milwyr ifanc Israel yn medru saethu taflegrau a bwledi y gwyddant fydd – yn lladd y ddamweiniol medden nhw – yn lladd y

diniwed? Mae ymosodiadau diweddara'r UDA a'r DU yn erbyn y gwrthryfelwyr yn Yemen yn ddim byd mwy na thafllu mwy o olew ar dân sydd eisoes allan o reolaeth!

O gofio am y sawl a ddioddefodd hil-laddiad drwy'r canrifoedd, daw Anne Frank i'r meddwl eleni eto. Y ferch ifanc pymtheg oed, honno a nododd yn ei dyddiadur ar Sadwrn, 20 Mehefin 1942, wrth fyfrio ar yr hyn a ddigwyddodd ym mis Mai 1940 pan gyrhaeddodd yr Almaenwyr yr Iseldiroedd: 'Dyna pryd y dechreuodd y trafferthion i'r Iddewon. Cafodd ein rhyddid ei gyfyngu'n ddifrifol gan gyfres o orchmynion gwrth-Iddewig.'

Trwy'r drain

Waldo, yn ei gerdd 'Pa Beth yw Dyn?' sydd yn gofyn cwestiwn ac yn ei ateb: 'Beth yw maddau? / Cael ffordd drwy'r drain at ochor hen elyn.' Gweddiwn o'r newydd felly am yr awydd a'r gallu i fynd drwy'r drain, a gofyn i bob hen elyn am faddeuant wrth gofio drwg gwenwynig hil-laddiad ym mhob oes.

O dystio i'r hyn sy'n digwydd yn y Dwyrain Canol a mannau eraill, tybed a ydym ni wedi dysgu unrhyw beth o brofiadau'r gorffennol? Ys dywed Ifans y Tryc gynt, 'Sgersli biliff!'

Tom Evans

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynnwyr na'r tîm golygyddol.)

PROSIECT DENMAN 2024

Eleni gwahoddir ysgolion Sul i ddefnyddio'u dychymyg a'u doniau creadigol i greu podlediad / hysbyseb / fideo / unrhyw beth cyfrwng digidol byr (hyd at 5 munud o hyd) neu waith celf ar y thema:

Ein hysgol Sul: 'Dysgu am Iesu.'

Roedd Iesu'n dysgu'r bobl am Dduw drwy gyfrwng damhegion. Sut ydych chi'n dysgu am Iesu Grist a'i neges?

Anfoner eich cynnyrch digidol at rhodri@annibynwyr.cymru a'r cynnyrch celf at Elinor yn Nhŷ John Penri, 5 Axis Court, Glanyrafon, Abertawe SA7 0AJ erbyn dydd Iau, 13 Mehefin 2024.

Caiff cyflwyniad o'r holl gyfraniadau ei ddangos yn ystod ein Cyfarfodydd Blynnyddol yn Nantgarw ym mis Gorffennaf.

Os am fwy o fanylion, cysylltwch â Thŷ John Penri: 01792 795888 neu undeb@annibynwyr.cymru



Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: tyst@annibynwyr.cymru

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

AWDURDOD Y BEIBL

A oes gan y Beibl awdurdod ar eich
bywyd? Os felly pa fath o awdurdod ac i
ba raddau? Ai'r Beibl sy'n dylanwadu'r
hyn a gredwch a'r ffordd yr ydych yn
byw?

Dyma rai cwestiynau perthnasol iawn i
ni. Mewn byd llawn lleisiau lluosog yn
mynnu ein sylw a'n hymlyniad gallwn
simsanu'n rhwydd o un pegwn i'r llall.
Pwysig felly yw i ni wybod pa awdurdod
a gaiff y flaenoriaeth yn ein bywyd. Mae
yna bobl sy'n gwrthod derbyn awdurdod
o'r tu fas iddynt eu hunain. Gwrthodant
awdurdod y wladwriaeth er enghraifft.
Ond yn fwy, gwrthodant awdurdod Duw
drostynt.

Gair Duw

Yn draddodiadol y Beibl yw rheol ffydd a
buedd y tu fewn i'r eglwys. Golyga hyn
mai'r Ysgrhythur yw'r prif awdurdod ar
athrawiaeth a bywyd. Mae Gair Duw beth
bynnag wedi'i amau gan sawl person gan
arwain at ddryswch ynglŷn â dysgeidiaeth
ac ymddygiad.

Yn wyneb hyn mae angen adfer
awdurdod y Beibl er mwyn gweld beth
sydd gan Dduw i'w ddweud amdano Ef Ei
Hun a'r byd a greodd. Perthyn awdurdod
i'r Beibl ar sail ei hysbrydoliaeth ddwyfol.
Oni bai am hyn yna cyfrol ddynol
ffaeledig yn unig ydyw. 'The Word of God
is either absolute or obsolete.' (Vance
Havner)

Camdddefnyddio

Ar y llaw arall mae awdurdod y Beibl
wedi'i gamdddefnyddio gan rai i gam-drin
eraill. Mae yna bobl er enghraifft sydd
wedi cyfiawnhau caethwasiaeth ar sail
melltith Noa o Cham (hynafiad yr
Affricaniaid) y byddai'n gwasanaethu
Sem (hynafiad yr Asiaiaid) a Jaffeth

(hynafiad yr Ewropeaid) (Genesis 9:25-
27). Ac mae yna ddynion sydd wedi
cymryd mantais o eiriau Paul i wragedd
fod yn ddarostyngedig i'w gwŷr i'w cam-
drin gan anwybyddu geiriau'r apostol
iddynt garu eu gwragedd (Effesiaid 5:22-
33). Mae angen gweinyddu awdurdod yn
gywir, yn gyfrifol ac yn gytbwys. O
wneud hyn cyflawna ei bwrpas er lles
unigolion. Yn lle gormesu, dyrchafu a
wna.

Dylanwadol

Gwelwn hyn ym mywydau rhai o
arweinwyr mwya'r eglwys. Wrth ddarllen
llythyr Paul at y Rhufeiniaid daeth Martin
Luther i ddeall mai trwy gredu'n Iesu'n
unig y deuai'n iawn gyda Duw. Ac wrth
wrando ar bregethwr anadnabyddus yn
dweud wrth ei gynulleidfa 'edrychwch
ataf i'ch gwaredu' (Eseia 45:22) y daeth
Charles Spurgeon i afael y cadw.

Gall dyn feistrolï'r Beibl ond
pwysicach fyth fod y Beibl yn ei feistrolï
ef. Nid plygu'r Beibl yn ôl ein mympwy
ein hunain a wnawn ond gadael i'r Beibl
ein plygu ninnau yn ôl ei awdurdod ei
hun. 'The authority of the Bible comes not
from the calibre of its human authors but
from the character of its divine Author.'
(Anad.)

O! Am nerth i rodio beunydd
Wrth Air ein Duw;
Harddu'n llwybrau, pwysu'n crefydd
Wrth Air ein Duw;
Yna, pan fo'r byd yn cilio,
A'r greadigaeth oll yn gwywo,
Mewn anfarwol fyd cawn rodio
Wrth Air ein Duw.

Elfed

Peter Davies

Saron
Creunant

Eleni y mae eglwys Saron yn
dathlu 120 o flynyddoedd ers ei
sefydlu.

1904–2024

Fe'ch gwahoddwn yn gynnes i
ymuno gyda ni am
Sul o Fawl/Cymanfa ar yr
31 Mawrth am 4 o'r gloch
Sul y Pasg.

Croeso cynnes i bawb.

UNDEB YR
ANNIBYNWYR CYMRAEG

Hysbyseb Swydd

Ysgrifennydd Gweinyddol

Llawm-amser 37.5awr yr wythnos

Chwilio am her? Awydd newid gyrfa?

Dyma gyfle cyffrous i berthyn
i dîm blaengar sy'n gweinyddu
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Ydych yn meddu ar y sgiliau
i reoli cyllid a chynnig arweiniad i'r
Undeb ar faterion ariannol a statudol?

Oes gennych y ddawn i ddatblygu
perthynas gydag eglwysi ar
faterion yn ymwneud â'u cyllid, statws
elusennol a chyfrifoldebau statudol?

Os felly, rydym yn awyddus i glywed
gennych.

I gael pecyn gwybodaeth ymgeiswyr
neu am sgwrs anffurfiol ynglŷn â'r
swydd, cysylltwch â'r

Ysgrifennydd Gweinyddol

Tŷ John Penri,
5 Axis Court, Parc Busnes
Glanyrafon, Bro Abertawe,
ABERTAWE. SA7 0AJ

Ffôn: 01792-795888

E-bost: ann@annibynwyr.cymru

Dyddiad cau: 12 Chwefror 2024

